Ysgol Iolo Morganwg

Polisi Rheoli Perfformiad

1. Cyflwyniad

Yn Ysgol Iolo Morganwg rydym yn ymroddedig i reoli perfformiad er mwyn datblygu'r holl staff, gwella addysgu a chodi safonau cyflawniad yr holl blant. Mae'r polisi hwn yn cynnwys yr holl athrawon ac eithrio athrawon sydd yn eu blwyddyn gynefino. Mae'n gosod fframwaith i'r holl staff gytuno ac adolygu blaenoriaethau ac amcanion o fewn cyd-destun cynllun datblygu'r ysgol a'u hanghenion proffesiynol eu hunain.

2. Rhesymeg

Rydym am wella perfformiad trwy ddatblygu effeithiolrwydd athrawon, fel unigolion ac fel timau. Mae tystiolaeth yn dangos bod safonau'n codi pan fydd ysgolion ac athrawon unigol yn sicr ynglŷn â'r hyn y maent yn disgwyl i'r disgyblion ei gyflawni. Dyna pam mae rheoli perfformiad yn bwysig.

Byddwn yn gweithredu ein trefniadau rheoli perfformiad ar sail:

- tegwch – mae angen i bob un ohonom fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer gwahaniaethu'n anfwriadol ac osgoi cymryd pethau'n ganiataol am unigolion yn seiliedig ar stereoteipiau a

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- cyfle cyfartal – dylid annog a chefnogi'r holl athrawon i gyflawni eu potensial trwy gytuno ar amcanion, ymgymryd â datblygiad ac asesu eu perfformiad.

3. Rolau

Cyd-gyfrifoldeb yw rheoli perfformiad. Mae gan y corff llywodraethu rôl strategol wrth gytuno ar bolisi rheoli perfformiad yr ysgol, gan sicrhau bod perfformiad yr athrawon yn yr ysgol yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac ar gyfer monitro'r broses rheoli perfformiad.

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am weithredu polisi rheoli perfformiad yr ysgol a sicrhau bod adolygiadau rheoli perfformiad yn cael eu cynnal.

Mae rheoli perfformiad yn seiliedig ar gydweithrediad rhwng y pennaeth a'r athro/athrawes er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu trafod a'u cytuno; bod adborth rheolaidd a gwrthrychol yn cael ei roi; bod hyfforddiant a datblygiad digonol yn cael eu darparu yn unol â'r anghenion gaiff eu hadnabod a bod yr adolygiad perfformiad yn cael ei gynnal.

4. Cyfrifoldeb dros Adolygiadau

Rydym wedi ystyried y trefniadau ymarferol ar gyfer rheoli perfformiad yn yr ysgol yn ofalus iawn. Rydym wedi penodi llywodraethwyr i gynnal adolygiad rheoli perfformiad y Pennaeth.

Y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth fydd yn arwain prosesau adolygu athrawon. Arweinydd y cynorthwywyr fydd yn arwain y broses i'r staff cynorthwyol.

Bydd athrawon yn adolygu a rheoli perfformiad disgyblion yn barhaus fel rhan o gynllun asesu a chynllunio i unigolion.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

5. Amseru'r Adolygiadau

Mae'r gylchred rheoli perfformiad o flwyddyn yn cysylltu â'n cynllunio ar gyfer rheoli'r ysgol a gosod targedau. Bydd y corff llywodraethu'n sicrhau bod amcanion wedi cael eu cytuno neu eu gosod ar gyfer y Pennaeth, yr athrawon a'r disgyblion erbyn diwedd Gorffennaf bob blwyddyn.

Mae ein hamserlen fel a ganlyn:

(a) Gosod amcanion newydd yn nhymor yr Haf

Bydd y rhain yn hysbysu ac yn cefnogi ein polisïau rheoli'r ysgol ar gyfer blynyddoedd ariannol ac academaidd yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried amcanion datblygiad proffesiynol wrth osod blaenoriaethau cyffredinol yr ysgol ar gyfer datblygu staff.

(b) Monitro ac Adborth

Mae'r adran hon yn esbonio trefniadau adolygu'r ysgol, gan gynnwys o leiaf un sesiwn arsylwi yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer pob athro/athrawes.

(c) Adolygiadau Ffurfiol yn nhymor yr Haf o berfformiad Disgyblion

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o fesurau wrth ystyried cynnydd y disgyblion, er enghraifft canlyniadau profion Cyfnod Allweddol cenedlaethol. Byddwn yn gosod amcanion newydd ac yn trafod

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

datblygiad proffesiynol yn y dyfodol. Bydd cynllun unigol newydd yn cael ei gwblhau ar gyfer pob athro/athrawes.

Bydd y broses adolygu'n cyfeirio ein polisïau rheoli'r ysgol gan gynnwys Cynllun Datblygu'r Ysgol ar gyfer y blynyddoedd ariannol ac academaidd i ddod.

(ch) Mae'r broses a amlinellwyd yn (c) uchod yn parhau'n flynyddol

Bydd y gylchred adolygu ar gyfer athrawon ar gytundebau cyfnod penodol byr o dymor neu fwy ond llai na blwyddyn yn cyfateb i hyd y cytundeb.

6. Y Gylchred Rheoli Perfformiad

Gosodir rheoli perfformiad yng nghyd-destun cynlluniau datblygu ein hysgol, cefndir y cynllun gwella ysgol (CGY), mentrau cenedlaethol a lleol ar wella addysgu ac unrhyw adroddiad diweddar gan ESTYN ar gyfer yr ysgol.

Cylchred barhaol yw rheoli perfformiad, nid digwyddiad, sy'n cynnwys 3 cham cynllunio, monitro perfformiad ac adolygu perfformiad. Gallai adolygiad diwedd y flwyddyn a Cham 1 ddigwydd yr un pryd.

Prosesau Rheoli Perfformiad Athrawon

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Cam 1: Cynllunio – Bydd pob athro/athrawes yn trafod ac yn cytuno ar amcanion gyda'u harweinydd tîm ac yn cofnodi'r rhain yn unigol.

Nid oes rheol gadarn ynglŷn â sawl amcan a ddylai fod ar gyfer athro/athrawes ond mae'r ysgol yn disgwyl y dylid cytuno ar o leiaf tri ond nid mwy na 5

Bydd amcanion ar gyfer athrawon yn cynnwys cynnydd disgyblion yn ogystal â ffyrdd o ddatblygu a gwella arfer proffesiynol athrawon.

Byddwn yn dilyn yr egwyddorion canlynol wrth drafod amcanion:

- dylai'r arweinydd sicrhau bod yr athro/athrawes yn deall yr hyn y mae ei amcanion/hamcanion ef/hi yn eu cynnwys, ei fod/bod mewn sefyllfa i'w cyflawni, ei fod/bod yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddo/iddi ei wneud er mwyn eu cyflawni ac yn deall pryd a sut y byddant yn cael eu hadolygu;

- mae'r amcanion yn glir, yn gryno ac yn fesuradwy;

- mae'r amcanion yn canolbwyntio ar faterion y mae gan yr athro/athrawes ddylanwad/reolaeth uniongyrchol drostynt ac yn ystyried y dylanwadau cymdeithasol-economaidd, diwylliannol ac allanol eraill sydd ar ddisgyblion; a

- dylai'r amcanion ar gyfer pob athro/athrawes fod yn berthnasol i amcanion cynllun datblygu'r ysgol ac unrhyw gynlluniau adrannol

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

neu dîm yn ogystal â'i anghenion/hanghenion datblygiad proffesiynol ei hun.

Bydd yr arweinydd yn cofnodi'r amcanion a fydd yn berthnasol ar gyfer y cyfnod adolygu. Bydd cydgytundeb ynglŷn â'r rhain os yw'n bosib. Os oes unrhyw anghytuno ynglŷn â'r amcanion gall yr athro/athrawes ychwanegu sylwadau at y cofnod ysgrifenedig o amcanion.

Mae angen cyfleoedd datblygiad proffesiynol er mwyn cefnogi amcanion y cytunwyd arnynt, datblygu cryfderau a delio â meysydd i'w datblygu neu dwf proffesiynol. Bydd camau gweithredu'n cael eu cofnodi yn adran datblygiad a hyfforddiant y cynllun unigol.

Cam 2: Monitro Cynnydd – Bydd yr athro/athrawes a'r arweinydd yn adolygu cynnydd yn ymarferol ar hyd y flwyddyn gan arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a defnyddio gwybodaeth berthnasol arall. Byddant yn trafod unrhyw gamau cefnogol y mae eu hangen ac yn diweddaru cynlluniau datblygu.

Dylai'r arweinydd ymgynghori â'r athro/athrawes cyn ceisio cael gwybodaeth, ysgrifenedig neu lafar, sy'n berthnasol i berfformiad yr athro/athrawes gan bobl eraill.

Derbynnir arsylwi yn yr ystafell ddosbarth fel arfer da **ac, yn ôl y rheoliadau, mae o leiaf un sesiwn arsylwi'n ofynnol bob blwyddyn.**

Byddwn yn dilyn yr egwyddorion hyn wrth gynllunio sesiynau arsylw

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- mae sesiwn arsylwi lwyddiannus yn gofyn am baratoi a hyfforddi a dealltwriaeth glir o ran ei diben gan yr athro/athrawes a'r arweinydd tîm;

- bydd natur y sesiwn arsylwi'n dibynnu ar ei diben;

- mae'n bwysig bod yr arsylwr yn sicrhau bod y wers yn mynd yn ei blaen mewn awyrgylch mor normal â phosib;

- mae adborth llawn, adeiladol ac amserol yn cynnig cyfle i drafod yr hyn a oedd yn dda a'r hyn y gellid ei wneud yn well neu'n wahanol y tro nesaf. Wrth roi adborth, dylai'r arweinydd tîm ystyried amrywiaeth y gweithgareddau y mae'r athro/athrawes yn eu gwneud a'r amser a dreuliwyd ar bob gweithgaredd.

Byddwn yn defnyddio ein taflenni arsylwi ein hunain.

Cam 3: Adolygu Perfformiad:

Bydd yr adolygiad blynyddol o berfformiad yr athro/athrawes yn defnyddio'r amcanion a gofnodwyd fel ffocws i drafod ei gyflawniadau/chyflawniadau ef/hi a nodi unrhyw anghenion datblygu. Fe fydd yn cael ei gyfuno ag amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer y gylchred rheoli perfformiad canlynol.

Ffocws yr adolygiad yw sut i wella perfformiad ac effeithiolrwydd. Fe fydd yn cynnwys:

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

- adolygu, trafod a chadarnhau tasgau ac amcanion hanfodol yr athro/athrawes;
- cydnabod cryfderau a chyflawniadau ac ystyried ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth yr athro/athrawes;
- cadarnhau camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda'r athro/athrawes mewn adolygiadau eraill;
- nodi meysydd i'w datblygu a sut y byddant yn cael eu cyflawni;
- cydnabod anghenion datblygu proffesiynol; a
- chytuno ar amcanion clir newydd a chwblhau cynllun unigol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Dylai'r arweinydd werthuso perfformiad cyffredinol yr athro/athrawes, gan gynnwys asesu i ba raddau y cyflawnwyd yr amcanion a chyfraniad yr athro/athrawes at fywyd yr ysgol yn ystod y cyfnod adolygu. Fe ddylai ystyried cyfnod presennol yr athro/athrawes yn ei yrfa/gyrfa ef/hi e.e. athro/athrawes gyda 2 – 3 blynedd o wasanaeth, athro/athrawes sgiliau uwch, uwch reolwr.

O fewn 10 diwrnod o'r cyfarfod adolygu, bydd yr arweinydd tîm yn paratoi datganiad adolygu ysgrifenedig sy'n cofnodi'r prif bwyntiau a wnaed yn yr adolygiad a'r casgliadau y daethpwyd iddynt, gan gynnwys unrhyw anghenion datblygu a nodwyd a gweithgareddau a gofnodwyd mewn atodiad ar wahân, ond sy'n ffurfio rhan o'r datganiad adolygu. Unwaith y bydd wedi'i ysgrifennu, bydd yr arweinydd tîm yn rhoi copi o'r datganiad i'r athro/athrawes. Gall yr athro/athrawes ychwanegu sylwadau ysgrifenedig at y datganiad o fewn 10 diwrnod o'i dderbyn am y tro.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Mae arfer da'n dangos y dylid ysgrifennu'r datganiad adolygu cyn gynted â phosib ar ôl yr adolygiad, tra bo'r ffeithiau'n dal i fod yn fyw yng nghof yr arweinydd tîm.

7. Cysylltiadau rhwng tâl, cyfnodau gyrfa a rheoli perfformiad.

Cynefino - gellir defnyddio cyfarfod adolygu olaf y cyfnod cynefino i gytuno ar amcanion a chyfleoedd datblygu proffesiynol fel cam cyntaf cylched rheoli perfformiad dilynol yr athro/athrawes.

Gellir defnyddio gwybodaeth o'r datganiad adolygu perfformiad i hysbysu agweddau o'r strwythur tâl newydd ar gyfer penaethiaid ac athrawon a gyflogir dan delerau ac amodau Dogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol.

- Hyd at y trothwy – gall athrawon ddisgwyl ychwanegiad blynyddol os ydynt yn gweithredu'n foddhaol. Byddai angen cyfiawnhau ychwanegiadau dwbl ar gyfer perfformiad ardderchog gan ganlyniadau adolygiad.

- Trothwy – dylai athrawon sydd am symud i'r raddfa gyflog uwch gwblhau'r ffurflen gais a ddarparwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Bydd tystiolaeth o'r adolygiadau'n cael ei defnyddio i hysbysu ceisiadau gan athrawon a'u hasesu gan benaethiaid.

- Pwyntiau tâl yn ôl perfformiad sy'n uwch na'r trothwy, athrawon sgiliau uwch ac athrawon yn y grŵp arweinyddiaeth – disgwylir i adolygiadau perfformiad ffurfio rhan o'r dystiolaeth y gall ysgolion ei defnyddio i hysbysu penderfyniadau ynglŷn â dyfarnu pwyntiau tâl yn ôl perfformiad i athrawon cymwys.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

8. Rheoli Perfformiad Gwan

Bydd rheolaeth dda, gyda disgwyliadau clir a chefnogaeth briodol, yn mynd ymhell tuag at nodi a delio â gwendidau mewn perfformiad.

Nid yw'r cyfarfod adolygu a'r datganiad adolygu yn ffurfio rhan o unrhyw weithdrefnau disgyblu neu allu ffurfiol.

Gellir ystyried gwybodaeth berthnasol o ddatganiadau adolygu gan y rheiny y mae ganddynt fynediad iddynt wrth wneud penderfyniadau a chynghori'r rheiny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, neu wneud argymhellion ynglŷn â materion sy'n ymwneud â pherfformiad, tâl, dyrchafu, diswyddo neu ddisgyblu.

9. Cyfrinachedd

Dogfennau personol a chyfrinachol yw'r cynllun unigol a'r datganiad adolygu a dylid eu cadw mewn lle diogel. Dylai'r rheiny y mae ganddynt fynediad i'r dogfennau ddilyn egwyddorion a darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 bob amser.

10. Mynediad i Ganlyniadau

Bydd dau gopi o'r datganiad adolygu - bydd un i'w gadw gan yr athro/athrawes a'r llall i'w gadw gan y Pennaeth/Dirprwy ar ffeil ganolog, y gallai'r arweinydd neu'r Is bwyllgor Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â thâl gofyn am fynediad iddi.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Bydd gwybodaeth ynglŷn ag adolygiadau perfformiad ar gael fel y rhestrir isod:

- ***bydd y Pennaeth yn sicrhau bod anghenion hyfforddi a datblygu o'r datganiad adolygu yn cael eu rhoi i'r person sy'n gyfrifol am hyfforddi a datblygu yn yr ysgol;***

- ***bydd y Pennaeth yn adrodd i'r corff llywodraethu'n flynyddol ynglŷn â rheoli perfformiad yn yr ysgol, gan gynnwys effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli perfformiad yn yr ysgol ac anghenion hyfforddi a datblygu'r athrawon.***

11. Cwynion

Yr Adolygiad

O fewn 10 diwrnod o dderbyn y datganiad adolygu:

Gall athrawon gofnodi eu hanfodlonrwydd ynghylch agweddau o'r adolygiad ar y datganiad adolygu. Os na ellir datrys y rhain gyda'r arweinydd tîm, gallant godi eu pryderon gyda'r Pennaeth. Os mai'r Pennaeth yw'r arweinydd tîm, gall yr athro/athrawes godi'r mater gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr.

Bydd y swyddog adolygu (a allai fod y Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr neu lywodraethwr a benodwyd gan y corff llywodraethu) yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn ystyried sylwadau a wnaed gan ddeilydd y swydd. Dylai'r swyddog adolygu gynnal adolygiad o'r gŵyn o fewn 10 diwrnod cais o'i chyfeirio. Fe all ef/hi benderfynu n

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

ddylid newid y datganiad adolygu neu fe all ychwanegu unrhyw arsylwadau ei hun. Gall y swyddog adolygu benderfynu, gyda chytundeb y person sy'n gyfrifol am gynnal yr adolygiad cychwynnol (neu yn achos y Pennaeth, yr holl lywodraethwyr a benodwyd), i ddiwygio'r datganiad adolygu; neu fe all ddatgan bod y datganiad adolygu'n ddi-rym a mynnu cynnal adolygiad newydd neu ailadrodd rhan o'r adolygiad. Os mynnir cynnal adolygiad newydd bydd llywodraethwyr newydd yn cael eu penodi i gynnal yr adolygiad ar gyfer y Pennaeth. O ran athrawon, bydd y Pennaeth yn penodi arweinydd tîm newydd. Dylid cynnal unrhyw adolygiad newydd neu ran newydd o adolygiad o fewn 15 diwrnod pellach.

Mewn achos athrawon ysgol ar gytundebau cyfnod penodol byr o dymor neu fwy ond llai na blwyddyn, os bydd cwyn yn codi ynglŷn â'r datganiad adolygu, efallai na fydd swyddog adolygu'n mynnu cynnal adolygiad newydd neu ran newydd o adolygiad.

Prosesau Rheoli Perfformiad Y Pennaeth

Bydd ymgynghorydd allanol yn rhoi cyngor i gynrychiolwyr y corff llywodraethu ar sefydlu amcanion perfformiad ar gyfer y Pennaeth a bydd yn eu cefnogi wrth adolygu perfformiad ar ddiwedd y gylchred adolygu.

Bydd amcanion ar gyfer y Pennaeth yn cynnwys arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn ogystal â chynnydd disgyblion.

Os nad yw'r Pennaeth a chynrychiolwyr y corff llywodraethu'n gallu cytuno ar amcanion, dylai'r llywodraethwyr a benodwyd i adolygu perfformiad y Pennaeth osod a chofnodi'r amcanion. Gall y Pennaeth ychwanegu sylwadau at y cofnod ysgrifenedig o amcanion.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image

Dylai copi o ddatganiad adolygu'r Pennaeth fynd at Gadeirydd y Llywodraethwyr.

Gall y Pennaeth gofnodi ei anfodlonrwydd ynghylch agweddau o'i adolygiad yntau ar y datganiad adolygu. Os na ellir datrys y rhain gyda'r llywodraethwyr a benodwyd, fe all godi ei bryderon gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr. Os yw Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi bod yn gysylltiedig â'r broses adolygu, dylai'r corff llywodraethu benodi un neu fwy o lywodraethwyr nad oeddent yn gysylltiedig ag adolygiad y Pennaeth i weithredu fel swyddog adolygu. Ni all llywodraethwr sy'n athro/athrawes neu'n aelod o'r staff fod yn gysylltiedig ag adolygu perfformiad.

12. Gwerthuso'r Polisi

Fel ysgol sy'n ymroddedig i sicrhau bod athrawon unigol, timau a'r ysgol yn parhau i wella, bydd y corff llywodraethu a'r Pennaeth yn gwirio bod amcanion effeithiol a heriol yn cael eu gosod, bod yr holl adolygiadau'n cael eu cwblhau'n brydlon a bod perfformiad yn cael ei asesu'n gyson yn yr ysgol. Byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd y polisi wrth helpu i wella safonau dysgu ac addysgu.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus bydd y corff llywodraethu a'r Pennaeth yn diweddaru ac yn diwygio'r ddogfennaeth a'r broses yn ôl yr angen, ar ôl ymgynghori â'r holl staff, er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau mawr a gyflwynwyd naill gan yr Adran Addysg a Sgiliau neu'r ysgol er mwyn sicrhau bod polisi ein hysgol yn ddiweddar ac yn effeithiol.

created using
BCL easyPDF
Printer Driver
Click here to purchase a license to remove this image